| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD:** | **26 MAI 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **ADOLYGU PENODIADAU AELODAU ANNIBYNNOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **PENDERFYNU AR Y BROSES AR GYFER PENODI AELODAU ANNIBYNNOL O'R PWYLLGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **MARC JONES - PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151** |
| **GWEITHREDU:** | **AR GYFER PENDERFYNIAD** |

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn gofyn i'r Pwyllgor benderfynu a yw'n dymuno ailbenodi'r ddau aelod annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Pwyllgor ar hyn o bryd am ddwy flynedd arall, ynteu a ddylai'r Awdurdod geisio penodi dau aelod newydd.

## 2. GWYBODAETH GEFNDIR

**2.1** Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae'n rhaid i Bwyllgorau Archwilio awdurdodau lleol, a hynny am y tro cyntaf, gynnwys o leiaf un Aelod Annibynnol o fis Mai 2012. Mae'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2012 yn datgan "yr argymhellir na ddylid penodi aelod lleyg am fwy na dau dymor llawn awdurdod lleol".

**2.2** Penodwyd y ddau Aelod Annibynnol cyfredol ar 1 Gorffennaf 2012 am gyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

**2.3** Yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2013, ystyriodd y Pwyllgor y trefniadau cyfredol a phenderfynodd fel a ganlyn:-

***"Penderfynwyd:- ymestyn y trefniadau presennol gyda'r Aelodau Annibynnol cyfredol o fis Gorffennaf 2014 am ddwy flynedd arall".***

**2.4** O gofio bod yr estyniad hwn o ddwy flynedd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2016 mae angen gwneud penderfyniad pellach yn awr ar benodi Aelodau Annibynnol.

## 3. OPSIYNAU SYDD AR GAEL

**3.1** Mae'r ddau Aelod Annibynnol cyfredol wedi bod yn gwasanaethu ar y Pwyllgor am gyfnod o bedair blynedd ac, yn ystod yr amser hwnnw maent wedi ennill gwybodaeth helaeth am y Cyngor a rôl y Pwyllgor Archwilio ym mhroses lywodraethu gyffredinol y Cyngor. Pe bai eu penodiad yn dod i ben, byddai'r Cyngor yn colli'r wybodaeth a'r profiad hwn.

**3.2** Fodd bynnag, rôl yr Aelod Annibynnol yw dod â phrofiadau amgen i'r Pwyllgor, o'r tu allan i lywodraeth leol, ac mae penodi aelodau newydd yn rheolaidd yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael persbectif newydd ar y materion a ystyrir a gallai hynny fod o fudd i'r Pwyllgor.

**3.3** Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi y bydd Aelodau Annibynnol y Pwyllgor yn cael eu penodi gan y Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, a hynny am gyfnod penodol i'w benderfynu ganddynt pan fydd y penodiad yn cael ei wneud. Nid yw'r Cyfansoddiad yn cyfyngu hyd y tymor sefydlog. Mae'r gofynion hyn wedi eu cynnwys yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor. Y tro diwethaf i'r Cylch Gorchwyl gael ei adolygu gan y Pwyllgor oedd ar 9 Chwefror 2015.

**3.4** Mae gan y Cyngor ei hun dymor diffiniedig, h.y. rhwng pob etholiad. Mae manteision hefyd o ran diffinio hyd penodiad yr Aelod Annibynnol i gyd-fynd â thymor y Cyngor a bod pob Aelod Annibynnol yn gwasanaethu am un tymor o bum mlynedd. Os bydd y Pwyllgor yn penderfynu mabwysiadu hyn fel polisi ar gyfer hyd aelodaeth Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio, byddai angen ymgorffori'r newid yng Nghyfansoddiad y Cyngor a byddai angen i'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo.

## 4 ARGYMHELLIAD

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y canlynol:-

1. Pennu cyfnod sefydlog ar gyfer hyd gwasanaeth Aelodau Annibynnol ar y Pwyllgor a bod y cyfnod hwnnw'n cyd-fynd â'r amser rhwng etholiadau'r Cyngor, h.y. 5 mlynedd, a phenderfynu a fedr aelodau wasanaethu am fwy nag un tymor, naill ai yn olynol neu ar unrhyw adeg.

2. Os cymeradwyir pwynt 1 uchod, ystyried ymestyn penodiad y ddau aelod cyfredol hyd at fis Mai 2017.

3. Os na chymeradwyir pwynt 1 uchod, penderfynu a ddylid ymestyn penodiad yr aelodau presennol am gyfnod pellach (i'w benderfynu gan y Pwyllgor) ynteu hysbysebu am ddau aelod annibynnol newydd a fydd yn dechrau eu tymor gwasanaeth ym mis Gorffennaf 2016 am gyfnod i'w benderfynu gan y Pwyllgor.

**R MARC JONES**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN151** **5 MAI 2016**